

GWLAD Y GÂN YN DOD I'R DREF

WNAETH stormydd y gaeaf ddim rhwystro cynghorwyr tref y Rhyl rhag chwifio'r faner dros Gymru.

Gyda llawer o'r wlad wedi ei tharo gan dymheredd o Siberia a than gwypm o eira, roedd Cyngor Tref y Rhyl yn benderfynol fod pethau i fynd rhagddynt, gan sgubo tymheredd arctig o'r neilltu i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi.

Gyda chantorion a cherddorion o Gôr Cymunedol Ghostbuskers, aeth y cynghorwyr i Stryd Fawr y Rhyl i ddsbarthu fflagiau Cymru a chennin Pedr i siopwyr.

Meddai Maer y Rhyl, y Cynghorydd Alan James: "Mae croeso cynnes i ymwelwyr a siopwyr yn y Rhyl bob amser ac, er gwaethaf y ffaith bod tywydd garw iawn ledled y wlad ar hyn o bryd, roeddem yn benderfynol nad oedd dathlu Dydd Gŵyl Dewi i gael ei effeithio.

"Roedd y côr yn canu'n dda ac rwy'n credu bod y canu a'r baneri wedi creu teimlad o gynhesrwydd ymhlith siopwyr ar ddiwrnod eithriadol o oer."

Mae Dydd Gŵyl Dewi yn nodi dechrau rhaglen ddigwyddiadau 2018 y cyngor tref, gyda cherddwyr ystudfachau yn y dref ar Lun y Pasg a digwyddiadau cymunedol mwy wedi eu cynllunio drwy gydol y flwyddyn.

"Bydd digwyddiadau cymunedol eleni gan fwyaf yn cael eu cynnal ar stryd fawr y Rhyl, gyda'r nod o gynyddu nifer yr ymwelwyr â chanol y dref, cefnogi busnesau a darparu profiadau gwahanol i siopwyr, er, rydym yn gobeithio am dywydd cynhesach ar gyfer gweddill y flwyddyn!" ychwanegodd y Cynghorydd James.

Diwedd

1 Mawrth 2018

